

## **Seminar 2: Ailfeddwl asesu: o fesur perfformiad i gefnogi dysgu**

### **Sleid 1 - Cyflwyniad**

Helo a chroeso i'r ail o dri seminar a ddatblygwyd i gefnogi gwaith a meddylfryd y grŵp cyd-adeiladu o fewn y prosiect Camau i'r Dyfodol. Nawr, nid yw'n syndod bod hyn yn adeiladu o rywfaint o'r meddwl hwnnw a archwiliwyd gennym yn y seminar cyntaf pan edrychon ni ar rywfaint o waith James McKernan a Laurence Stenhouse ymysg eraill, i ddadbacio ac adeiladu rhyw fath o ddarlun o'r ffordd y gallem ddeall dull trefn proses.

Nawr, yr hyn a ddangosodd y gwaith hwn oedd bod defnyddio dull proses yn ymwneud â mwy na dim ond edrych ar y prosesau o ddysgu. Yn wir, mae'n ffordd wahanol o feddwl am ddysgu ac addysgu'r cwricwlwm. Nawr yn fyr iawn, daeth rhai pethau allan o hyn: rydym yn gwybod hyd yn hyn, er enghraifft, y byddai'r rhai sy'n defnyddio dull yn dal i orfod dewis cynnwys, fel y byddech petaech chi'n defnyddio dull cwricwlar arall, ond na fyddai'r cynnwys hwn wedi ei nodi o flaen llaw fel canlyniadau dysgu. Byddai athrawon yn dewis cynnwys ar y sail eu bod yn barnu ei fod werth ei ddysgu ac yn defnyddio eu dealltwriaeth o werthoedd a phwrpasau'r cwricwlwm er mwyn gwneud hyn. Ystyriwyd bod gweithio gyda'r cwricwlwm yn y ffordd yma'n broses weddol greadigol sy'n grymuso, ac y byddai'r athrawon yn ei ddefnyddio i greu profiadau dysgu sy'n gadael i ddisgyblion ymgysylltu â'r cynnwys gwerth ei ddysgu hwnnw mewn ffyrdd sy'n caniatáu iddyn nhw ddatblygu tuag at gyflawni pwrpasau neu amcanion cyffredinol y cwricwlwm.

Yn y mewnbwn hwn, rydym yn dadbacio pethau ymhellach fyth ac yn gofyn i ni'n hunain beth mae trefn proses yn ei olygu o ran ffyrdd o feddwl am asesiad ac ymdrin ag ef.

### **Sleid 2 – Dull Proses**

Nawr mae unrhyw ddiwygiad cwricwlaidd cymhleth, yn enwedig y rhai ar lefel genedlaethol, yn gwahodd pobl ar draws y system i ofyn cwestiynau am dair system negeseuon allweddol sy'n creu addysg, sef: cwricwlwm, addysgeg ac asesiad. Gwyddom fod pob un o'r tri yma wedi eu rhyngblethu mewn ffyrdd gweddol gymhleth yn aml iawn, a gwyddom o'r tri yma, y gall asesiad gael dylanwad gweddol sylweddol ar y ffordd a addysgwn a'r hyn a addysgwn.

Mae asesiad yn rhan integral o'r berthynas rhwng cwricwlwm ac addysgeg, ond mae trefn broses yn ein gwahodd i feddwl yn wahanol am ddysgu ac asesiad. Nawr, er bod y darn nesaf hwn yn ymddangos braidd yn amlwg, y rheswm syml yw bod y ffordd yr ydym yn meddwl am asesiad, ac yn datblygu ac ymarfer asesiad, yn dibynnu i raddau mawr iawn ar y ffordd yr ydym yn meddwl am ddysgu. Cyn hyn, yn rhan o waith y grŵp cyd-adeiladu, mae pobl wedi cael y cyfle i feddwl yn barod am un o'r gwahaniaethau hirsefydlog y mae pobl yn brwydro ag ef mewn addysg – y gwahaniaeth rhwng dysgu a pherfformiad,

Mae Soderstrom a Bjork yn cydnabod mai'r hyn rydym yn arsylwi arno yn rhan o'r broses o gyfarwyddyd neu hyfforddiant yw newidiadau mewn perfformiad, a dydy'r rhain ddim o anghenraid yn dweud wrthym am newidiadau mewn dysgu, sydd yn cael eu deall yn y fan yma fel newidiadau gweddol barhaol yn y pethau y gall rhywun ei ddeall, ei wybod a'i wneud. Mae dulliau proses, fel yr ydym wedi eu harchwilio yn y seminar blaenorol, yn ymwneud i raddau mawr â dysgu yn yr ystyr hwn drwy dwf a datblygiad – y disgybl unigol i feithrin dealltwriaeth sy'n cael ei ehangu, ei ddyfnhau, ei wella a'i gyfoethogi, i ddwyn geiriau Mary James unwaith eto.

Y pwynt yn y fan yma yw bod angen i'n harferion asesu gael eu halinio'n ddigonol gyda'n dealltwriaeth o addysgu a dysgu. Ac wrth fabwysiadu dull proses, ni fyddai asesiad yn gyrru'r prosesau hyn o addysgu a dysgu, ond yn hytrach yn gadael i ni werthuso a deall dysgu'r disgyblion mewn ffyrdd sy'n cefnogi dysgu parhaol, datblygiad a thwf. Cyn belled ag y bo modd, rydym yn gobeithio osgoi yr hyn y mae McCormick yn ei ddisgrifio fel y cynffon asesu diarhebol yn siglo ci'r cwricwlwm

Nawr, i'n helpu ni i feddwl drwy hyn ychydig bach mwy, rydw i'n mynd i gyflwyno dwy farn ac un safbwynt. Mae'r farn gyntaf yn gweld asesiad fel proses gydgyfeiriol, mae'r ail yn ystyried asesiad fel proses ddargyfeiriol, a'r safbwynt yw bod dulliau proses yn awgrymu symudiad o farn gydgyfeiriol am asesiad i farn ddargyfeiriol am asesiad.

### **Sleid 3 – Barn Gydgyfeiriol am Asesiad**

Nawr, cyn i mi fynd ymlaen i ddisgrifio ychydig bach am y safbwyntiau hyn am asesiad, mae'n bwysig nodi bod y rhain wedi eu cyfuno o waith John Pryor, Harry Torrance a Sue Swaffield a bod cyfeiriadau wedi eu cynnwys at y papurau cysylltiedig hyn ar ddiwedd y cyfraniad hwn. Rhan o'r rheswm pam rydym yn meddwl ei bod yn ddefnyddiol archwilio a chyferbynu'r gwahanol safbwyntiau hyn am asesiad yw ei fod yn helpu i ddarlunio'n fwy clir yn awr sut mae gwaith pobl fel Kelly, Stenhouse a McKernan yn cyfleu – ar y cyd – ffordd wahanol o feddwl am ddysgu ac addysgu.

Yma, rydym yn gweld felly rai o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â barn fwy cydgyfeiriol o asesiad. Oherwydd ei natur, mae ei ddibenion yn gulach nag a fyddai'n wir efallai gyda safbwyntiau mwy dargyfeiriol o asesiad. Mae llawer o'r ffocws a'r arferion asesu'n ymwneud â chwestiynau sy'n gofyn i ba raddau y mae dysgwyr wedi sicrhau canlyniad neu ddeiliant dysgu penodol. Mae'n nodedig hefyd bod Stenhouse, yn ei waith ysgrifennu ei hun, yn cysylltu'r math hwn o broses gyda'r busnes o lwyddiant a methiant i raddau mawr iawn.

Nawr, yn aml iawn rydym yn gweld barn fwy cydgyfeiriol o asesiad sy'n gysylltiedig â chwricwla sydd wedi eu seilio ar gynnyrch neu safonau lle mae dysgu wedi ei gipio a'i fframio fel cyfres o ganlyniadau ac mae'r canlyniadau hyn ac felly'r dysgu'n cael ei ystyried yn rhywbeth rhagweladwy. A phan ddefnyddiaf y gair 'rhagweladwy', rwy'n golygu y gall gael ei ddisgrifio cyn i unrhyw ddysgu ac addysgu ddigwydd. Yn yr ystyr hwn, ystyrir dysgu fel proses linol i raddau mawr sydd, dros amser, neu dros gwrs gwrs yn cydgyfeirio i gyflawni amcanion neu ganlyniadau dysgu penodol. Mae dulliau asesu wedi eu llunio i helpu i ganfod i ba raddau y mae hyn wedi digwydd ac, o'r adborth hwnnw, gellir ei ddefnyddio i helpu disgyblion i wella perfformiad. Mae hyn yn meithrin math o ddolen adborth y gellir ei ystyried yn un caeedig os yw'r disgyblion yn gallu gweithredu arno a'i ddefnyddio i helpu i wella perfformiad a chyrhaeddiad, ac yn y pen draw, ateb y deiliant neu ganlyniad dysgu'n llawnach. Yn sylfaenol, mae'r farn gydgyfeiriol hon o asesiad yn gorwedd ar ddamcaniaethau ymddygiadol o ddysgu, ac mae hyn yn gwrthgyferbynu â barn ddargyfeiriol o asesiad sy'n gorffwys ar ddamcaniaethau gwybyddol cymdeithasol a damcaniaethau dysgu adeileddol cymdeithasol.

### **Sleid 4 – Barn Ddargyfeiriol am Asesiad**

Ni fydd yn llawer o syndod i bobl bod y farn ddargyfeiriol am asesiad yn cynnwys barnau ychydig yn ehangach am asesiad ac am bwrpasau asesu. Mae'n adlewyrchu'n gryfach agweddau tuag at gwricwlwm, dysgu ac addysgu, am ei fod yn ymwneud â deall a gwerthuso dysgu'r disgyblion. Yma, mae'r cwestiwn gwaelodol sy'n siapio sut rydym yn meddwl am y prosesau asesu hyn yn symud o'r graddau y mae disgyblion wedi cyflawni canlyniadau arbennig o bosib i'r hyn y gall pob dysgwr ei wneud, a'r hyn y maen nhw'n ei wybod.

Yr hyn sy'n ddiddorol yn y fan yma yw ein bod hefyd, drwy newid y cwestiwn, yn newid ein fframiau cyfeirio, ac os byddwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a wyddom yn barod am y dull proses, gallwn weld sut mae hyn yn adlewyrchu'n agosach y syniadau o ddatblygiad unigol a thwf unigol. Mewn ffordd, nid yw'n ymwneud bellach ag asesiad sy'n cefnogi disgyblion i gyflawni canlyniadau dysgu'n llawnach. Ac yn wir, mae'r farn hon o asesiad yn gweld canlyniadau dysgu fel pethau sy'n weddol niwlog ac na ellir eu rhagweld. Mae'n gweld bod gwahanol ddisgyblion yn ymateb yn wahanol o bosib i brofiadau dysgu drwy wneud synnwyr yn unigol ac ar y cyd – efallai y bydd y ffordd y mae un disgybl yn deall rhywbeth ychydig yn wahanol i'r ffordd y mae disgybl arall yn deall rhywbeth.

Nawr ar y pwynt hwn, os ydym i gyd yn onest, bydd llawer ohonom yn meddwl yn ein pennau am y goblygiad ymarferol mawr y bydd hyn yn ei gael ar arferion asesu. Am nad yw ein dull proses ar gyfer y cwricwlwm yn manylu nac yn fframio dysgu yn nhermau canlyniadau, nid yw'r prosesau asesu'n gwneud hynny chwaith, Yn wir, mae asesiad cwricwlwm ac addysgeg, yn nhermau dulliau proses, yn hynod o integredig. Mae asesiad yn y cyd-destun hwn yn rhoi cyfle i'r athro werthuso dysgu – i gefnogi mwy o ddysgu. Felly, mae'n ymwneud â deall yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud mewn perthynas â'r cynnwys sydd werth ei gael y maen nhw'n ymgysylltu ag ef drwy brofiadau dysgu. Ac mae hefyd yn wynebu tuag ymlaen.

Ond sut allwn ni ymdrin ag asesiad os nad ydym yn gwneud hynny mewn perthynas â chanlyniadau dysgu?

### **Sleid 5 – Asesiad Dargyfeiriol: Proses Werthusol**

Yn rhan o'r cyfraniad seminar cyntaf, roeddem wedi defnyddio diffiniad o gwricwla proses a gynigiwyd gan James McKernan. Nawr, dyma oedd y diffiniad lle siaradodd am y cwricwlwm fel cynnig oedd yn nodi cynllun addysgol. Byddai'r cynllun hwnnw'n cynnig gwybodaeth, agweddau, sgiliau a galluoedd o werth cymdeithasol i fyfyrwyr a byddai'r rhain ar gael i fyfyrwyr drwy amrywiaeth o brofiadau dysgu ar bob lefel o'r system. Nawr, yn yr un darn o destun, mae'r paragraff nesaf yn dechrau gyda McKernan yn dadlau nad yw'r diffiniad uchod, ac rwy'n dyfynnu, yn gwahanu'r cwricwlwm oddi wrth asesiad neu werthusiad, nac oddi wrth gyfarwyddyd, fel sy'n digwydd yn aml yn y meddwl cyfoes.

Yn anad dim, ni fyddai McKernan ac eraill sy'n gweithio gyda dull wedi ei seilio ar broses byth yn meddwl am asesiad fel rhywbeth ar wahân i ddysgu ac addysgu, ac yn wir maen nhw'n aml yn ystyried ei fod wedi ymblethu cymaint gyda hynny nes nad yw'n hawdd ei wahanu. Am yr union reswm hwn, os byddwch yn defnyddio dull proses, nid ydych yn debygol o ddod o hyd i adrannau ar wahân sy'n trafod asesiad, a'r rheswm syml yw nad ydynt yn gweld hon fel proses ar wahân. Yr hyn maen nhw'n tueddu ei wneud, ac yr ydym wedi ei awgrymu'n barod yn y cyfraniad hwn, yw gweld asesiad fel proses werthusol; un sydd â diddordeb mewn deall dysgu a datblygiad yr unigolyn, cyd-ddysgu'r grŵp, eu datblygiad a'u proses o greu ystyr, a hefyd a yw'r uned o waith a phrofiadau dysgu eu hunain yn effeithiol o ran helpu disgyblion i ddysgu.

Yn y fan yma felly, yn lle asesu yn erbyn canlyniadau arbennig, mae athrawon yn gwerthuso ac yn awgrymu yr hyn y gall disgyblion ei wneud, a'i wybod, mewn perthynas â'r hyn sy'n cael ei addysgu a pham. Mewn llawer o ffyrdd, mae hyn yn pwysu i mewn i'r hyn y bydd llawer o athrawon yn ei wneud yn barod yn rhan o'u hymarferion. Nid yw asesiad yn yr ystyr hwn yn wyddoniaeth berffaith, ond mae'n broses ac mae'n un lle mae athrawon yn gwneud eu gwerthusiadau a'u casgliadau goddrychol eu hunain ar sail eu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei addysgu.

Yn awr, mae dysgu fel arfer yn rhywbeth na allwn ei weld yn uniongyrchol, ac mae'r rhan fwyaf o asesiadau felly'n cynnwys athrawon yn gwneud llawer o werthusiadau o ddysgu disgyblion ar sail gwahanol fathau o dystiolaeth. Nawr gall hyn fod yn waith disgyblion, deialog, trafodaeth ac arsylwadau ffurfiol, gweithgareddau disgyblion ac yn y blaen. Yr hyn rydym yn tueddu ei weld yw, os bydd pobl yn mabwysiadu dull proses, mae deialog a thrafodaeth yn dod yn ddull arbennig o rymus y mae athrawon yn cael synnwyr drwyddo o'r ffordd y mae disgyblion yn deall ac yn meddwl am bethau. Nawr mae hyn yn wir beth bynnag yw'r pwnc neu faes astudio, ac mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn weddol glir a ydynt yn deall ac yn gwybod rhywbeth. Os yw athro, er enghraifft, yn sylwi ar ddisgybl yn defnyddio'r hafaliad, *grym yw mas wedi ei rannu gan gyflymiad*, arbenigedd yr athro ei hun o'r pwnc arbennig hwnnw sy'n caniatáu iddyn nhw adnabod bod hyn yn anghywir. Yn yr un modd, os bydd disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu eu dehongliadau eu hunain o ddarn o destun neu ddarn o stori, yna arbenigedd yr athro ei hun o'r darn hwnnw o destun sy'n caniatáu iddyn nhw werthuso i ba raddau y mae dehongliadau'r disgyblion yn cael eu cefnogi ganddo. Yn y ddwy esiampl yma, gwerthusiad yr athro sy'n sbarduno trafodaeth a deialog gyda'r disgybl, efallai o amgylch y berthynas rhwng grym, mas a chyflymiad, neu pam nad yw agweddau arbennig o ddehongliad wedi ei gefnogi gan destun. Mae hyn eto'n adlewyrchu pwysigrwydd rôl yr athro a gwybodaeth am y pwnc.

Nawr, yn olaf, ar y Sleid hon rydym hefyd yn siarad am y broses o wneud awgrymiadau o'r gwahanol werthusiadau hyn sy'n digwydd yn rhan o'r addysgu a'r dysgu. Y rheswm am wneud hyn yw na allwn ni weld dysgu ac nad yw un ffynhonnell o dystiolaeth yn gallu ffurfio darlun cyflawn o'r hyn y mae disgyblion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. Mae'r mathau o dystiolaeth yr ydym yn ymgysylltu â nhw pan fyddwn yn gwneud gwerthusiadau oll yn rhannol ac yn anghyflawn o anghenraid. Felly, mae'n rhaid i ni ddod i gasgliad o'r gwahanol werthusiadau hyn, er mwyn adeiladu darlun o'r hyn y mae disgyblion yn ei ddeall, yn ei wybod ac yn gallu ei wneud.

### **Sleid 6 – Asesiad Dargyfeiriol: Proses Werthusol**

Felly, mae'r olwg fwy dargyfeiriol hon ar asesiad a awgrymwyd gan ddulliau proses yn cynnwys athrawon yn gwneud gwerthusiadau ac yn dod i gasgliadau ar sail y ffaith eu bod wedi sylwi ar bethau yn ymatebion y disgyblion ac mewn perthynas â'r hyn sy'n cael ei addysgu a'i ddysgu. Mae'r gwerthusiadau y mae athrawon eu hunain yn eu gwneud yn cefnogi, dyfnhau a chyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae llawer o hyn wedi ei ddangos gan Stenhouse yn ei waith ysgrifennu ei hun lle mae'n gweld ymatebion gwerthusol athrawon fel pethau sy'n cael eu tywys gan ddealltwriaeth o natur y pwnc ac yn darparu gwerthusiad meddylgar a chynhyrchiol sy'n helpu'r myfyriwr i wella eu gwaith.

### **Sleid 7 – Gweithgareddau Asesu fel Gweithgareddau Dysgu**

Yn y Sleid olaf hon felly, rydym yn crynhoi rhai nodweddion a allai fod yn ddefnyddiol wrth feddwl am weithgareddau asesu fel gweithgareddau dysgu, fel pethau nad ydynt ar wahân mewn gwirionedd i'r prosesau o ddysgu ac addysgu.

Yn gyntaf, ac yn cyfateb yn fawr iawn â'r syniadau o ddull proses, dylai'r gweithgareddau hyn fod yn addysgol ystyrion a gwerthfawr yn nhermau cefnogi a datblygu dysgu. Ac yma gallai fod yn ddefnyddiol meddwl am, ac ymdrin â'r gweithgareddau hyn sy'n rhan o'r profiad addysgol ehangach sydd wedi ei ddatblygu i ddisgyblion, yn hytrach na thasgau neu brofion penodol

Yn nesaf, er mwyn cefnogi dysgu cyfoethog, mae angen i'r gweithgareddau hyn gael lefel briodol o her a chael eu datblygu mewn ffordd sy'n gadael i ddysgwyr ymgysylltu â chreu synnwyr, gydag ymholiad, gyda chwestiynu, gydag archwilio. Dylai gweithgareddau hefyd ddarparu cyfleoedd sy'n gadael i ddisgyblion ddangos eu dysgu, a dylai hyn gynnwys y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r syniadau sy'n dod i'r amlwg o gynnwys sydd werth ei gael y mae disgyblion yn ymgysylltu ag ef.

Yn olaf, rhoi ystyriaeth i'r ffordd y gall y gweithgareddau gael eu gwneud mor ddilys ag y bod modd i sicrhau bod ganddynt gymwysiadau a chysylltiadau yn y byd go iawn yn hytrach na phrofi gwybodaeth sydd wedi ei thynnu fwy allan o'i chyd-destun.